Ar nos Lun, Hydref 9ed cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Daeth cynulliad niferus o rieni ynghyd ac wedi'r cyfarfod busnes rhoddodd y Prifathro adroddiad gan amlinellu'r hyn a olyga'r Cwricwlwm Cenedlaethol a sut y caiff ei weithredu o fewn yr ysgol. Bu sesiwn o ofyn cwestiynau yn dilyn a bu'n noson fuddiol iawn i bawb oedd yn bresennol. Swyddogion y gymdeithas am 1989-90 yw:

Cadeirydd: Mr Alun John

Is-Gadeirydd: Mr Robert Dobson

Ysgrifennydd: Mrs Elenid Thomas

Trysorydd: Mr Gareth Evans

Aelodau'r Pwyllgor:

Mr Royston Davies, Mr A. Maltman, Mrs Ll. Williams, Miss M.P. Jones a Mrs E. Evans.